Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Trefynwy**

**The Store House**
**Howells Place**
**Trefynwy**
**NP25 3ED**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Trefynwy

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Monmouth Day Nursery Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual Insert] 16 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Manual Insert] Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r feithrinfa yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae pwyslais da ar roi cyfle i'r plant arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn hyderus ac wedi setlo yn y feithrinfa. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r rhai o'u cwmpas ac yn cael cyfleoedd da i chwarae ac archwilio eu hamgylchedd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r staff sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r staff yn ddigon cymwys, yn broffesiynol ac yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn monitro cynnydd y plant ac yn deall eu hanghenion unigol. Maent yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol ac sydd o ddiddordeb uniongyrchol i'r plant.

Mae’r safle yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw mewn ffordd addas. Mae'r cyfleusterau dan do ac yn yr awyr agored wedi'u gwella, ac mae'r feithrinfa yn parhau i ganolbwyntio ar ei defnydd o gyfarpar a theganau naturiol yn bennaf. Mae systemau cadw cofnodion effeithiol ar waith mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a lleihau a nodi risgiau.

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r tîm rheoli yn brofiadol, yn gwrando ar y staff ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae'r staff yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Maent yn cael cyfleoedd datblygiadol da er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Mae polisïau, gweithdrefnau a chofnodion da ar waith. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth ac maent yn cael diweddariadau rheolaidd ar newidiadau a digwyddiadau'r cylch chwarae.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r plant yn treulio eu hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft. Wrth gyrraedd, gwnaethom nodi fod yr holl blant a oedd yn y grŵp plant bach yn cael sesiwn cyd-ganu. Roedd yr holl blant yn dawnsio a chanu gydag ymwelydd sy'n mynd i'r feithrinfa er mwyn helpu'r plant i fynegi eu hunain mewn ffyrdd creadigol. Ar ôl cinio, cafodd y grŵp o fabanod gyfleoedd rhydd yn eu prif ystafell. Gwnaethom arsylwi'r plant yn dewis gweithgareddau yn hapus, o edrych ar lyfrau i chwarae gyda theganau chwarae rôl.

Mae'r plant yn fodlon eu byd, yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf â'r gweithwyr allweddol ac maent yn teimlo'n gyfforddus i fynd at unigolion cyfarwydd pan fydd angen help neu sicrwydd arnynt. Caiff y plant hŷn gyfle rhydd i ddefnyddio llawr gwaelod y feithrinfa. Gwnaethom arsylwi plant cyn oed ysgol yn dewis cael byrbrydau pan roeddent yn llwglyd ac nid ar amser penodol. Wrth i'r plant hŷn gael gwybod bod y lle byrbryd yn barod, er enghraifft. Gwnaeth rhai o'r plant olchi eu dwylo ac eistedd i lawr i ddewis beth roeddent am ei fwyta o'r hyn oedd ar gael. Dewisodd rhai o'r plant roi menyn ar eu craceri a gwnaeth eraill dorri eu ffrwythau cyn eu bwyta neu arllwys eu diodydd eu hunain. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddod yn annibynnol ac yn rhoi hyder iddynt. Mae'r plant hŷn yn dechrau gwneud ffrindiau gyda'u cyfoedion. Gwelsom y plant yn chwarae'n hapus â'i gilydd gan ddefnyddio'r gweithgareddau a oedd ar gael iddynt. Roedd y plant a oedd yn chwarae ar eu pen eu hunain yn fodlon a gwnaethant ganolbwyntio ar y dasg o'u blaenau wrth i blant a staff eraill ymuno â nhw yn y gweithgaredd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i feithrin eu sgiliau drwy'r profiadau chwarae a dysgu a ddarperir. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n dangos diddordeb, sy'n gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio'r amgylchedd. Mae'r pwyslais ar chwarae rhydd ond mae hefyd gweithgareddau strwythuredig, wedi'u harwain gan oedolion, y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt ac yn eu mwynhau. Er enghraifft, gwnaethom arsylwi'r plant hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol yn eu prif ystafell, gan ddefnyddio matiau ar y llawr. Dywedwyd wrthym fod y plant hŷn wedi bod yn treialu sesiynau Ioga rheolaidd yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym fod y grŵp wedi mwynhau'r sesiynau'n fawr a bellach mae Ioga yn weithgaredd dyddiol sy'n cael ei wneud ar ddechrau'r diwrnod. Mae hyn yn dangos bod y staff yn gwrando ar ddiddordebau'r plant a'u bod yn cael eu cynnwys yn amserlen arferol y feithrinfa.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant ym mhob grŵp oedran yn cael cyfleoedd addas i feithrin sgiliau hunangymorth. Maent yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain a cheisio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain. Gwelsom fod y grwpiau oedran iau yn cael cymorth i wisgo eu cotiau er mwyn mynd allan i chwarae.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro iechyd a diogelwch y plant. Mae gweithdrefnau diogelu da yn hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb i fod yn wyliadwrus ac maent yn glir ynghylch y prosesau i'w dilyn i ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu ac yn cael yr holl wybodaeth gyfredol berthnasol. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel. Fodd bynnag, wrth drafod â staff y grŵp babanod a'r tîm rheoli ynghylch gweithdrefnau gwagio'r adeilad yn ddiogel, daeth i'r amlwg nad oedd y cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad yn cynnwys yr hyn y bydd y staff yn ei wneud os byddai'n rhaid i'r babanod a'r plant bach aros i ffwrdd o'r safle ar ôl gwagio'r adeilad.

Mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant gorfodol diweddaraf y gwasanaeth, megis hyfforddiant hylendid bwyd, cymorth cyntaf a diogelu. Maent yn cydweithio'n dda i roi arferion hylendid a threfniadau glanhau da ar waith, sy'n helpu i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach, yn enwedig yn ystod y pandemig. Mae'r plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r rheolwyr yn sicrhau y caiff gwybodaeth yn ymwneud ag alergeddau ei rhannu â'r staff a chogydd y feithrinfa sy'n paratoi pob pryd er mwyn monitro'r plant yn ofalus.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar â'r plant, gan eu helpu i ddysgu a datblygu'n effeithiol. Maent yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ystyried oedran a cham datblygu'r plant wrth reoli materion ymddygiadol. Mae'r staff yn defnyddio llais tyner i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n drist, ac yn canmol y plant am eu hymdrechion. Maent yn mwynhau eu rolau ac yn rhoi cysur i'r plant sy'n teimlo'n ofidus.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Maent yn cydgysylltu'n agos â chynghorwyr yr awdurdod lleol, gan gymryd rhan yn y broses o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn ddiweddar. Mae cofnodion arsylwi ac asesu yn parhau i fod yn rhan o'r broses newydd. Defnyddir Cymraeg yn Achlysurol yn y gwasanaeth. Clywsom y plant a'r staff yn canu yn Gymraeg ac maent yn defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau, megis wrth gyfri, yn ogystal ag adnabod geiriau Cymraeg am liwiau. Clywsom y staff yn defnyddio ymadroddion Cymraeg mewn gweithgareddau ac arferion dyddiol. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddod i arfer â'r iaith a gaiff ei siarad yn ddyddiol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol, sy'n darparu digon o le ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae ymwelwyr bellach yn cael eu croesawu i'r feithrinfa wedi'r pandemig. Mae'r rhieni yn gallu mynd i brif ystafell eu plentyn i'w gollwng a'u casglu o'r feithrinfa. Mae'r tystysgrifau diogelwch blynyddol yn gyfredol. Caiff gwiriad dyddiol ei gynnal gan staff i gadw pawb yn ddiogel. Mae asesiadau risg effeithiol ar waith ar gyfer pob agwedd ar y safle sy'n nodi ac yn dileu risgiau.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac yn adlewyrchu gweithdrefnau hylendid da. Mae'n darparu ardaloedd golau a llachar sydd â digon o le i'r plant archwilio. Mae'r cyfleusterau toiled yn lân ac mae'r staff yn mynd gyda'r plant i'r toiled pan fo angen, neu yn eu goruchwylio o bell er mwyn galluogi'r plant hŷn i ddod yn fwy annibynnol. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ac amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr wedi gweithio'n galed i newid cyfarpar a theganau synthetig, lle y bo'n bosibl, a chael adnoddau naturiol yn eu lle. Er bod gan y feithrinfa, ar y cyfan, fwy o adnoddau naturiol nac o ddeunyddiau plastig, roedd hyn yn fwy amlwg yn y grŵp cyn ysgol. Gall y plant gael gafael ar deganau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol. Mae'r plant yn cael cyfle i barhau i chwarae yn yr awyr agored yn ystod tywydd garw. Y rheswm dros hyn yw bod cyfran dda o'r ardal chwarae awyr agored wedi'i gorchuddio'n dda ac sydd wedi'i chynllunio ar gyfer chwarae parhaus o'r ystafell ddosbarth. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da drwy gydol y dydd i ddewis gweithgareddau, gan gynnwys chwarae â theganau ag olwynion, sy'n eu helpu i ehangu eu dysgu a'u datblygiad. Caiff y staff eu lleoli'n dda yn yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae darparwr y feithrinfa yn chwarae rôl bwysig yn y feithrinfa ac yn bresennol ar y safle yn aml. Mae rheolwr y feithrinfa, sydd hefyd yn berson â chyfrifoldeb, yn gymwys a phrofiadol ac mae'n rhoi cymorth da i'r tîm o staff yn ddyddiol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r staff yn meddu ar gymwysterau da ac yn cael eu defnyddio'n dda. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn y grŵp plant bach ar ddechrau'r diwrnod. Ar ôl i'r tîm rheoli nodi'r broblem gwnaethant esbonio fod hyn oherwydd salwch staff ac y byddai'r system staffio'n cael ei haildrefnu cyn diwedd y dydd. Rhoddodd y darparwr gynllun gweithredu i AGC cyn iddynt gwblhau'r ymweliad cyntaf hefyd. Felly ni wnaethom gymryd unrhyw gamau pellach. Mae cynllun datblygu ar waith i gadw golwg ar newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r datganiad o ddiben yn fanwl ac yn rhoi gwybodaeth dda i'r rhieni am y lleoliad er mwyn sicrhau y gallant wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ei addasrwydd i'w plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith y mae'r darparwr yn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae tîm rheoli'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o'r ansawdd gorau i'r plant a'u teuluoedd, ac mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Mae'r arweinwyr a'r staff yn ymroddedig ac mae ganddynt weledigaeth glir. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad yw'r polisi meddyginiaeth wedi'i ddiweddaru a bod angen iddo fod yn fwy eglur. Nid oedd y polisi yn nodi bod yn rhaid i'r rhieni ddarparu'r feddyginiaeth bob amser, gan sicrhau bod enw'r plentyn a'r dosiau i'w rhoi i'w gweld yn glir ar label y feddyginiaeth. Mae'r rheolwr yn cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phlant.

Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Mae ffeiliau'r staff wedi'u cwblhau ac mae'r holl wiriadau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r holl staff yn cael arfarniadau blynyddol ac yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd i fonitro perfformiad a nodi hyfforddiant pellach.

Mae'r darparwr wedi ennyn ymddiriedaeth y rhieni ac wedi ffurfio cysylltiadau cyfathrebu da iawn â nhw. Mae'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth a gânt. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gefnogol ac “Nothing is too much for them”. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wedi cael eu diweddaru'n dda dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn ystod y pandemig, a bod y staff wedi cadw mewn cysylltiad â'r teuluoedd. Mae hyn, pan yn bosibl, yn helpu'r plant i setlo'n gyflym a hapus.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau bod cynllun clir ar waith i ddefnyddio staff sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gyfer pob ystod oedran, os bydd y staff yn sâl.

A2. Sicrhau y caiff y broses o gadw babanod a phlant ifanc i ffwrdd o'r safle am gyfnod o amser wrth aros i'r gwasanaethau brys ddiogelu'r safle yn ystod ymarferion tân eu hystyried.

A3. Adolygu'r polisi meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol na chaiff meddyginiaeth ei chadw gan y feithrinfa, na'i defnyddio ganddi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/01/2023